



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Caemaen

**Cartref Gofal Caemaen
Coleshill Terrace
Llanelli
SA15 3DE**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/10/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Preswyl Caemaen

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleoedd cofrestredig	30
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	14/03/2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae gan y gweithwyr cymorth dealltwriaeth

dda o anghenion a dewisiadau unigol y bobl.

Mae'r cofnodion gofal yn cyfleu'r unigolyn yn dda, yn adlewyrchu ei anghenion gofal presennol ac yn cynnwys yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd. Mae'r bobl yn canmol y gweithwyr gofal a thîm rheoli'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a thîm cryf o uwch-aelodau o staff.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn defnyddio'r ymweliadau hyn ac amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd i sicrhau bod ganddo drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae Caemaen yn cynnig amgylchedd croesawgar a glân i'r bobl. Mae'r décor a'r dodrefn mewnol mewn cyflwr da, ond gellid gwella'r ystafelloedd ymolchi cymunedol a'r coridorau i gynnig profiadau ymolchi mwy pleserus a chartrefol i'r bobl a'u helpu i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y gwasanaeth yn well. Mae'r gerddi cymunedol yn cynnig lleoedd i'r bobl gymdeithasu a mwynhau.

Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff eu safbwyntiau eu ceisio'n weithredol gan y rheolwyr yn ystod cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd â phreswylwyr unigol, gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau chwemisol ar Ansawdd y Gofal. Mae'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg ac yn cael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth dda am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwyllo a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac maent yn cael eu cefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gynnal eu llesiant. Fodd bynnag, nid yw'r addurniadau mewnol mewn rhai manau yn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y coridorau a'r ystafelloedd gwely. Gellid gwneud yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fwy cartrefol i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau.

Gofal a Chymorth

Caiff anghenion a dewisiadau unigol y bobl eu cydnabod a'u deall. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus am hanesion personol yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r cofnodion gofal y gwnaethom eu darllen yn rhoi darlun da o'r unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth penodol. Caiff asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd hefyd. Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd i geisio adborth gan y bobl. I'r rhai na allant fynychu'r prif gyfarfod neu'r rhai nad ydynt yn dymuno gwneud hynny, cynhelir cyfarfodydd unigol i geisio eu barn a'u dewisiadau. Caiff y cyfarfodydd hyn eu dogfennu'n dda.

Cadarnhaodd un unigolyn fod y cam gweithredu a nodwyd yn nodiadau cyfarfod ag ef wedi cael ei gwblhau a'i fod yn fodlon iawn.

Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant yn dewis gwneud hynny, ac mae amrywiaeth o opsiynau ar gael o ran prydau bwyd y gall y bobl eu bwyta yn yr ystafell fwyta gymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Ar ôl iddynt fwyta eu cinio, dywedodd y bobl wrthym *“that was lovely”, “It was very tasty”* ac *“I’m full now”*. Mae amseroedd bwyta yn achlysur cymdeithasol, a chaiff pob bwrdd ei addurno â lliain bwrdd, blodau, napcynau, jwg o sudd oer a thebot wedi'i inswleiddio yn barod i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau.

Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r cynllun 'Gwên am Byth', sy'n rhoi arweiniad gwerthfawr a hyfforddiant ar iechyd y geg i bobl sy'n agored i niwed.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n garedig â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg os mai dyma eu dewis iaith. Mae gweithgareddau yn chwarae rhan yn arferion y bobl. Caiff unigolion eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r hysbysfyrddau cymunedol yn rhoi manylion digwyddiadau ac adloniant sydd i ddod, gan gynnwys "Spooky Supper" i ddathlu Calan Gaeaf ar 31 Hydref.

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Caemaen a'u bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Gwnaethant ddweud wrthym *“I would speak to one of the girls [care workers] if I am unhappy about something”* ac *“Yes, I do feel safe living here, it’s lovely”*. Caiff manylion am weithdrefn gwyno Cyngor Sir Caerfyrddin eu darparu i'r bobl pan fyddant yn symud i'r gwasanaeth, ac maent hefyd wedi'u harddangos yn yr ardaloedd cymunedol.

Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd i'w defnyddio gan y bobl ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae coridorau'r ystafelloedd gwely wedi eu haddurno mewn modd dymunol â lluniau a phwyntiau o ddiddordeb mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r addurniadau yn y gwasanaeth er mwyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd i'w hystafelloedd gwely ac o amgylch yr ardaloedd cymunedol yn well. Mae arwyddion dwyieithog drwy gydol y gwasanaeth.

Mae ychydig o waith wedi ei gwblhau er mwyn gwneud yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fwy cartrefol i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau. Fodd bynnag, dylid ystyried sut y gellid gwella'r rhain ymhellach.

Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli ag eitemau, dodrefn, lluniau, ac ornamentau yn unol â dewisiadau'r unigolyn. Mae pob ystafell wely wedi'i rhifo, ond dim ond ambell ystafell sydd â llun o'r unigolyn a'i enw ar y drws. Dylid ystyried rhoi lluniau ar bob drws er mwyn helpu i dywys y bobl i'w hystafelloedd gwely eu hunain.

Mae nifer o lolfydd cymunedol a llyfydd i'r bobl eistedd a chymdeithasu. Maent oll wedi eu haddurno'n dda gyda lliwiau'r cadeiriau'n cyd-fynd â lliw'r llenni. Mae ardal eistedd ger y brif dderbynfa sy'n boblogaidd iawn ac yn cael ei defnyddio gan y bobl. Dywedodd un unigolyn wrthym *"I like sitting here, I can see who comes and goes"*. Mae ystafell trin gwallt hefyd ar gael i'r bobl ei defnyddio, naill ai gyda'r triniwr gwallt sy'n ymweld bob wythnos neu drwy drefniadau preifat gyda thrinwyr gwallt lleol.

Mae gerddi cymunedol ar gael i'r bobl eu defnyddio, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd i eistedd a chymdeithasu â ffrindiau a theulu.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol da ar waith. Caiff y gwiriadau a'r cliriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff medrus sydd wedi'i hyfforddi a'i gefnogi'n dda. Mae gan y rheolwr a'r tîm o uwch-ofalwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Er bod y gwasanaeth wedi wynebu problemau staffio hanesyddol, mae'r defnydd o staff asiantaeth rheolaidd yn helpu'r tîm o staff parhaol i sicrhau parhad gofal i'r bobl. Mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio gweithwyr gofal ar adeg yr arolygiad.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mynychu amrywiaeth eang o hyfforddiant, ac roedd matrices hyfforddiant y staff yn cadarnhau hyn. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"I've had the best training since starting"*.

Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r staff yn symud ac yn codi a chario'r bobl yn ddiogel, ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu hystyried. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwyllo wedi'u dogfennu rheolaidd, ac arfarniad blynyddol. Roedd y sgorsiau a gawsom gyda'r staff a'r cofnodion y gwnaethom eu darllen yn cadarnhau hyn.

Caiff y rheolwr a'r dirprwy reolwr eu parchu'n dda gan y gweithwyr gofal, a ddywedodd wrthym: *"[manager] and [deputy] are great, they are very approachable and supportive", [manager] and [deputy] are excellent. [manager] is the best manager I have worked for; she really listens and cares"* ac *"I am really enjoying it here; the manager and deputy are very approachable"*.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 28/11/2023